# Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol

**Adran Cyfathrebiadau Corfforaethol, Pencadlys / Gweithio Ystwyth**
**Parhaol, 37 awr yr wythnos**
**GTAGC Gradd 07 £33,024 i £35,745 y flwyddyn ynghyd â thaliad o 8.5% y ymrwymiad tu allan i oriau**

Ydych chi'n angerddol am gyfathrebu ac yn edrych am eich her nesaf?

Rydym yn chwilio am unigolyn deinamig i ymuno â'n Hadran Cyfathrebiadau Corfforaethol.

Mae gwaith y tîm cyfathrebu o fewn gwasanaeth brys rheng flaen yn amrywiol ac yn werth chweil - gan ymgorffori ystod o ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu'r cymunedau a wasanaethwn.

**Am y Rôl:**
Fel Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol, byddwch yn chwarae rhan ganolog wrth ddatblygu a hyrwyddo ein strategaeth cyfathrebu corfforaethol.

Bydd eich ymagwedd ragweithiol yn sicrhau bod ein tîm cyfathrebu yn cyflawni'n gyson i'r safonau uchaf.

Gyda'r gallu i greu cynnwys ysbrydoledig a chymhellol gyda'r nod o ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, byddwch ar flaen y gad o ran cyfathrebu amcanion, gwerthoedd craidd a chyflawniadau'r gwasanaeth tân ac achub.

**Cyfrifoldebau Allweddol:**
- Cynorthwyo i weithredu'r strategaeth cyfathrebu corfforaethol, gan sicrhau cyfathrebu cynhwysfawr a phroffesiynol ar ran y gwasanaeth tân ac achub.
- Darparu cefnogaeth mewn amrywiaeth o fentrau cyfathrebu, yn fewnol ac yn allanol ac ar draws amrywiaeth o lwyfannau.
- Cynrychioli'r Gwasanaeth mewn digwyddiadau cyfathrebu.

**Gofynion:**
- Rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol yn y ddwy iaith
- Gallu ysgrifennu cyfathrebiadau staff a phrofiad o ddrafftio datganiadau newyddion cryno a chywir a briffiau ar gyfer amrywiol randdeiliaid.
- Gallu cynorthwyo i gysylltu â'r cyfryngau a defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu'n effeithiol â chynulleidfaoedd allanol.
- Profiad o sicrhau bod cynnwys yn gyfredol ar draws amrywiaeth o llwyfannau cyfathrebu megis gwefan allanol y Gwasanaeth, mewnrwyd y Gwasanaeth a chyfathrebu â staff drwy'r 'Crynodeb Wythnosol'.
- Mae'r rôl yn cynnwys cymryd rhan mewn swyddfa'r wasg y tu allan i oriau, a weithredir mewn shifftiau ar rota ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru.

Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800
call • text • live chat • email
Home shouldn't be a place of fear
Help is available 24/7

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

Confidential Employee Hotline

We are an equal opportunity employer and welcome applications from all sections of the community. We are committed to equality of opportunity for all staff and applications from individuals are encouraged regardless of age, disability, sex, gender reassignment, sexual orientation, pregnancy and maternity, race, religion or belief and marriage and civil partnerships.
We welcome correspondence and calls in Welsh and English and we will respond equally to both and will reply in your language of choice without delay. Applications submitted in Welsh will be treated no less favourably than an application submitted in English.

**Sylwch fod y swydd hon yn amodol ar Fetio Personél nad yw'n Heddlu (NPPV). I gael rhagor o fanylion am y rôl, cysylltwch â Tracey Williams Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol Tracey.Williams@tangogleddcymru.llyw.cymru.**

**I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn cais drwy e-bost i: recruitment@northwalesfire.gov.wales**

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw hanner dydd, 8 Mai 2024**

***Cedwir yn gaeth at y dyddiad cau ac ni fydd unrhyw eithriadau.***